

YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD
LLAWLYFR - HANDBOOK
2021 – 2022



Bontnewydd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2UF

Ffôn / Tel. – 01286 673880
E-bost / E-mail – LlyrRees@gwynedd.llyw.cymru

PENNAETH / HEADTEACHER
Mr. Llŷr Rees

Cadeirydd y Llywodraethwyr / *Chair of Governors*
Mr. Gruffudd Williams

Ysgol Gynradd Sirol Ddwyeithog ar gyfer disgyblion 3-11 oed
County Primary bilingual school for pupils aged 3-11 years old



Ysgol Gynradd Bontnewydd
Bontnewydd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2UF

 **01286 673880**

LlyrRees@gwynedd.llyw.cymru



Pennaeth/Headteacher: Llŷr Rees

Annwyl Riant,

Croeso i Ysgol Bontnewydd.

Hoffwn estyn croeso cynnes i chi a'ch plentyn i Ysgol Bontnewydd. Pwysleisiwn, fel staff a Llywodraethwyr, mai partneriaeth yw addysg rhyngom ni yma a chwithau yn y cartref. Trwy gydweithio hyderwn y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn un hapus ac y bydd yn datblygu yn addysgol a chymdeithasol i'w lawn botensial.

Ymfalchiwn yn y berthynas agos sydd gennym fel ysgol gyda'n rhieni ac edrychwn ymlaen at groesawu a chyd-weithio gyda chi.

Gobeithiwn y bydd y llawlyfr yma o gymorth i chi ddod i adnabod yr ysgol a'r modd y gallwch chi atgyfnerthu ein gwaith gyda'ch plentyn. Cyflwynir manylion am nifer o faterion sydd o bwys i gynorthwyo trefniadaeth yr ysgol ac i helpu'r plentyn i ymgartrefu'n fuan. Am ragor o wybodaeth gallwch gyrchu i wefan yr ysgol ar <http://ysgolbontnewydd.org/>

Fe'ch gwahoddir i drafod cynnwys y llawlyfr neu unrhyw fater arall gyda mi trwy wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol.

Yn gywir iawn

Llyr Rees

Llŷr Rees
Pennaeth

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Ysgol Bontnewydd yn gwasanaethu pentref Bontnewydd a'r cylch gwledig cyfagos, gan gynnwys pentrefi Caeathro a Llanfaglan. Ceir disgyblion hefyd sydd yn teithio o'r tu allan i ddalgylch naturiol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned eang ag iddi amrywiaeth ieithyddol a chymdeithasol.

Gwneir y gorau bob amser i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o deulu'r ysgol.

Agorwyd yr ysgol bresennol yn 1976, ond mae

addysg wedi ei ddarparu ar y safle ers canrif a mwy. Gwneir defnydd ysbeidiol o'r Hen Ysgol o hyd, ac yma y lleolir yr Ysgol Feithrin, Meithrin Mwy a'r Clwb Ôl Ysgol.



Mae'r adeilad presennol wedi ei chynllunio fel un rhannol agored a cheir saith o ddsbarthiadau pwrpasol yn ogystal â neuadd, tir caled a thir gwyrdd eang.

Cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn yn Chwefror 2017. Derbyniwyd Adroddiad gyda barnau o dda neu ragoriaeth ym mhob un o'r meysydd arolygu. Gellir cael copi o'r Adroddiad o'r ysgol neu o wefan yr ysgol. www.ysgolbontnewydd.org
<<http://www.ysgolbontnewydd.org>>

Ymfalchiwn yn y ffaith bod rhieni ac ymwelwyr â'r ysgol yn cydnabod yr ymdeimlad o gyfeillgarwch a threfn sy'n bodoli yma, a'r modd y bydd disgyblion newydd yn ymgartrefu'n hapus.

Ceir awyrgylch symbylus a gweithgar yn y dosbarthiadau yn seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu hunan hyder ag agwedd bositif at ddysgu. Disgwylir safon uchel o ymddygiad ac ymroddiad ar bob achlysur. Ceir ymdeimlad da o gydweithio ac anogir pob disgybl i dderbyn a rhannu cyfrifoldebau amrywiol.

"Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel". ESTYN



NODAU AC AMCANION

Gweledigaeth

- Adeiladu ar y seiliau cadarn presennol gan sicrhau gwelliant ym mhrif feysydd addysg. Arwain yr ysgol i fod yn sefydliad ysgogol a deinamig gall wynebu her addysg yr 21ain ganrif yn hyderus.

Nodau

- Creu ethos hapus, ysgogol a gweithgar lle y gall pob plentyn dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.
- Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf gan feithrin brwdfrydedd ac awch at ddysgu a fydd yn sail i ddatblygu sgiliau dysgu gydol oes.
- Darparu mynediad i brofiadau a gweithgareddau eang sy'n tanio'r dychymyg ac yn hyrwyddo cymhelliant ac annibyniaeth.
- Hyrwyddo gwir bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref a chynnal perthynas gynhwysol gyda'r gymuned.

Amcanion

- Galluogi pob plentyn i ddatblygu ei botensial yn llawn drwy ennill sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, er mwyn sicrhau ei fod yn datblygu sgiliau dysgu gydol oes gadarn.
- Galluogi pob plentyn i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog
- Cynnig i blant gwricwlwm eang a chynhwysol sy'n eu hysgogi i ddysgu ac i gyrraedd safonau da ym mhob agwedd o'u gwaith ysgol ac i wireddu eu potensial
- Hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth, yn arbennig drwy ddatblygu lles plant gan deilwra'r dysgu i anghenion yr unigolyn.
- Sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol cadarn lle gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu gwybodaeth broffesiynol am ddysgu ac addysgu.
- Darparu cymuned ddysgu gadarn ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â bywyd ysgol, yn cynnwys plant a'u teuluoedd, llywodraethwyr, athrawon, staff ac oedolion sy'n hyfforddi i weithio yn yr ysgol.
- Bod yn bartner allweddol gyda darparwyr eraill wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau ychwanegol i blant er mwyn gwella'u lles a'u dysgu.

STAFF YR YSGOL

STAFF DYSGU

Pennaeth

Mr Llŷr Rees

Dirprwy Bennaeth

Miss Eirian Madine

Athrawon Cyfnod Allweddol 2

Athrawes Wyddfa (Bl.6)
 Elidir (Bl.5)
 Glyder (Bl.4)
 Tryfan (Bl.3)
 Athrawes CPA

Miss Siân Pritchard/Mr Llŷr Rees
Miss Eirian Madine
Miss Lynne Adams
Miss Beca Jones
Mrs Rona Hughes

Cymorthyddion CA2

Miss Bethan Pritchard
Mrs Christine Jones
Mrs Carys Cadwaladr

Athrawon Cyfnod Sylfaen

Uwch Gymhorthydd Dosbarth Meithrin
Athrawes Blwyddyn 0
 Blwyddyn 1
 Blwyddyn 2

Mrs Beth Green
Mrs Rachel Owen
Mrs Bethan Jacks
Mrs Rowena Robert-Evans

Cymorthyddion Cyfnod Sylfaen

Mrs Beth Green
Mrs Iona Robinson
Miss Donna Owen
Miss Glesni Williams
Miss Ceri Jones
Miss Awel Owen
Miss Gillian Evans

Cymorthyddion Anghenion Arbennig

Mrs Emma Roberts
Mrs. Nia Jones
Mrs Rhian Hall
Mrs Lliwen Morgan

Athrawon Teithiol Cerdd

Telyn
Prês

Miss Angharad Jones
Mr Dylan Williams

STAFF ATEGOL

**Ysgrifenyddes/Clerc Cinio
Clerc Cyllidol**

Mrs Gillian Jones
Mrs Beth Green

**Glanhawr mewn Gofal
Glanhawraig**

Mr Glyn Roberts
Mrs Lilia Owen

**Cogyddes
Cynorthwywyr Cegin**

Mrs Magi Johnson
Mrs Sarah Childes
Mrs Lisa Barry
Miss Stephanie Roberts

Goruchwyliwr Canol Dydd

Mrs Carys Porter
Mrs Christine Jones
Mrs Gillian Jones

Goruchwyliwr Clwb Brecwast

Mrs Carys Porter
Mrs Christine Jones
Miss Glesni Williams
Mrs Lilia Owen

LLYWODRAETHWYR

Mae Ysgol Bontnewydd yn ffodus iawn i gael Corff Llywodraethol ymrwymedig a gweithgar.

Y Corff Llywodraethol o Fedi 2020

<u>Aelodau</u>	<u>Penodwyd gan</u>	<u>Tymor yn diwedd</u>
Mr. Owain Ellis	Cynrychiolydd Rhieni	31/8/2023
Mrs. Lisa Wheldon Williams	Cynrychiolydd Rhieni	31/8/2023
Mrs. Meilys Smith	Cynrychiolydd Rhieni	31/8/2024
Mr. Gethin Thomas	Cynrychiolydd Rhieni	31/8/2022
Mrs. Ceri Ann Evans	Cynrychiolydd A.A.LL	31/8/2022
Mrs. Alys Llywelyn Hughes	Cynrychiolydd A.A.LL	31/8/2021
Mr. Peter Garlick	Cynrychiolydd A.A.LL	31/8/2021
Mr. Dewi Euron Griffiths	Cyfetholedig	31/8/2022
Mr. Dewi Ellis Davies	Cyfetholedig	31/8/2022
Mr. Gruffudd Williams	Cyfetholedig	31/8/2024
Mr. Math Williams	Cynrychiolydd Cyngor Cymuned	31/8/2021
Miss. Ceri Ann Jones	Cynrychiolydd Staff Ategol	31/8/2022
Miss Eirian Madine	Cynrychiolydd Athrawon	31/8/2021
Mr. Llŷr Rees	Pennaeth	31/8/2023
Mrs. Gillian Jones	Clerc y Llywodraethwyr	

Os ydych angen trafod unrhyw fater gyda'r Corff Llywodraethol yna cysylltwch â'r Cadeirydd neu'r Clerc.

Cadeirydd: Mr. Gruffudd Williams,
Ffrwd Cae Du,
Bontnewydd,
Caernarfon

Clerc: Gillian Jones
45 Glanrafon,
Bontnewydd,
Caernarfon,
GillianJones@gwynedd.llyw.cymru

POLISI MYNEDIAD

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdod. Gellir gweld copi trwy gyrchu i wefan Cyngor Gwynedd.

Yn unol â'r polisi hwnnw, derbynnir disgyblion Meithrin (rhan amser), i'r ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Derbynnir disgyblion oed Derbyn i'r ysgol yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth i drafod a threfnu ymweliad cyn gwneud cais i'r Awdurdod.

Yn yr un modd, dilynnir Polisi Mynediad yr Awdurdod i drosglwyddo disgyblion hŷn o un ysgol i'r llall. Mae'n arferol i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 a hynny heb eu bod yn medru'r Gymraeg i fynychu'r Uned Iaith ym Maesincla am dymor.

POLISI IAITH

Amcanion Cyffredinol

- Meithrin agwedd gadarnhaol tuag at y ddwy iaith
- Datblygu gallu ieithyddol yn y ddwy iaith
- Meithrin diddordeb mewn ffurfiau amrywiol o lenyddiaeth
- Creu ymwybyddiaeth o werth yr etifeddiaeth Gymraeg

Prif Amcanion

Prif amcanion gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen fydd rhoi sylfaen gadarn Gymraeg i bob plentyn. Gan mai yn y cyfnod cynnar hwn y mae plentyn mwyaf parod i amsugno iaith, y mae'n bwysig creu amrywiaeth o brofiadau symbylus iddynt.

Ym mlwyddyn 1 a 2 adeiladir ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg, er mwyn galluogi'r plentyn i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law; cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Gymraeg ac ymestyn gafael y plant o gartref Gymraeg ar y Saesneg.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 bydd cadarnhad a datblygiad pellach o Gymraeg a Saesneg pob plentyn, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan fydd yn trosglwyddo i'r ysgol Uwchradd.

Trefnir i hwyrdyfodiaid yng Nghyfnod Allweddol 2 i fynychu'r Uned Iaith Dalgylchol ble mae cyfleusterau ar gyfer cyflwyno cyrsiau dwys arbenigol i ddysgwyr. Bydd y dysgwyr yn trosglwyddo yn ôl i'r ysgol gynradd ymhen tymor.

I hybu naws Gymreig yr ysgol, disgwylir mai'r Gymraeg a ddefnyddir i sgwrsio'n anffurfiol yn y dosbarth ac ar y buarth. Anogir hyn gan Gyngor y Siarter Iaith.

Croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth i weld copi o'r Polisiâu Iaith

Y CWRICWLWM

Ein nod yn Ysgol Bontnewydd yw darparu addysg gyflawn a chwricwlwm eang i bob disgybl. Hyderwn ein bod yn galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.

Creiddiol i'n gwaith yw sicrhau fod pob plentyn yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer dysgu gydol oes, ac i fod yn aelod llawn o'r gymdeithas. Rhoddwn fri mawr ar sicrhau sgiliau dwyieithog pob plentyn gan gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o'r etifeddiaeth Gymraeg.

Y CYFNOD SYLFAEN

Dilynir saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gyda'r disgyblion rhwng 3 i 7 oed.

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygu'r Gymraeg
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

CYFNOD ALLWEDDOL2

Dilynir Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 gyda disgyblion 7-11 oed.

- Pynciau Craidd – Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth
- Pynciau Sylfaen – Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Cerdd, Celf, Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg ac Addysg Gorfforol

Yn naill gyfnod allweddol dilynir gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ogystal â'r Fframwaith ar gyfer Addysg Personol a Chymdeithasol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

“Darpara’r ysgol amrediad cyfoethog ac ysgogol o brofiadau dysgu. ” ESTYN

Bydd rhai disgyblion ADY yn cael eu tynnu o'r dosbarth ar adegau i weithio ar eu targedau personol. Cefnogir rhai disgyblion eraill gan Gymhorthydd Sgiliau a staff o dimau Canolog yr Adran ADY a Chynhwysiad.

TREFN DIWRNOD

CYRRAEDD YR YSGOL

Mae'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am y plant am 10 munud cyn ac ar ôl pob sesiwn dysgu. Atgoffwn y rhieni yn rheolaidd nad oes gan athrawon gyfrifoldeb am y plant yn swyddogol tan 8:50 a.m. ac na ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn hynny.

CLWB GOFAL/BRECWAST

Cynhelir Clwb Gofal/Brecwast yn yr ysgol. Rhaid cofrestru ar lein os am le.

Clwb Gofal/Brecwast rhwng 8:00 a 8:50 lle darperir brecwast. Bydd brecwast yn cael ei weini rhwng 8:00 a 8:40. Cost £1 y dydd am yr elfen o ofal. Cofrestru a thalu ar lein

Clwb Brecwast yn unig rhwng 8:25 – 8:50 lle darperir brecwast am ddim. Cofrestru ar lein. Rhaid cyrraedd cyn 8:40 er mwyn cael brecwast.

Rhaid i blant gymryd brecwast yn y clybiau. Os oes gan eich plentyn alergedd neu anhwylder bwyd, cysylltwch â'r ysgol. Cysylltwch â'r ysgol am ffurflen gofrestru ac am wybodaeth am y sytem ar lein.

GADAEL YR YSGOL

Dylai'r rhieni ddod i gyfarfod eu plant o flaen mynedfa'r Cyfnod Sylfaen ysgol a bydd yr athrawon yn trosglwyddo'r plant yn ddiogel. Os digwydd i riant fod yn hwyr yn dod i nôl plentyn, bydd yr athrawes yn mynd ag ef/hi yn ôl yn ddiogel i'r dosbarth.

Yn naturiol, nid oes hawl gan blentyn o'r Cyfnod Sylfaen i adael tir yr ysgol heb ganiatâd a heb oedolyn i'w gyrchu. Cofiwch roi gwybodaeth i ni yn yr ysgol, yn ogystal ag i'ch plentyn, os bydd unrhyw newid yn y trefniadau arferol ar gyfer codi plant o'r ysgol. Pan fydd teuluoedd yn chwalu, ac un o'r rhieni'n cael gofal dros y plant, mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod am y trefniadau er mwyn osgoi sefyllfa annifyr.

Bydd disgyblion CA2 yn cerdded adref/ at geir rhieni yn annibynnol.

Ni ellir gadael i blentyn fynd o'r ysgol yn gynnar oni bai fod rhiant yn dod i'w nôl neu fod cais ysgrifenedig yn cael ei dderbyn yn gofyn i ni anfon y plentyn adref ar amser penodol.

Daw diwedd i ddiwrnod ysgol yn y Cyfnod Sylfaen am 3:00 ac am 3:20 yng Nghyfnod Allweddol 2.

CINIO YSGOL

Anogir pob disgybl i gymryd prydau ysgol ar ddechrau'r dosbarth Derbyn. Mae'r bwyd a ddarperir yn arlwy cytbwys ac iach. Os oes gan eich plentyn alergedd at fathau gwahanol o fwyd dylid cynnwys y wybodaeth ar ffurflen fynediad eich plentyn neu drwy gysylltu â'r Pennaeth. Bydd y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r gogyddes. Mae'r plant i gyd yn bwyta o dan arolygaeth yn y neuadd.




Telir arian cinio drwy'r system Talu-ar-lein Cyngor Gwynedd. Ar hyn o bryd pris cinio ysgol yw £2.50 sef £12.50 yr wythnos. Gofynnir yn garedig i chi dalu yn brydlon. Y Clerc Cinio ar gyfer unrhyw ymholiadau tâl yw Mrs Gillian Jones. Rhoddir cynnig i ddisgyblion sy'n dod a phe cyn bwyd i ymuno gyda'r criw cinio ysgol ar ddyddiau arbennig megis Cinio Nadolig, Cinio Gŵyl Ddewi a Chinio Rhyngwladol.

Anogir plant i ddod a ffrwyth i'w fwyta ar amser egwyl. Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael cynnig llefrith neu ddŵr i'w yfed. Darperir dŵr yfed ym mhob adran ond croeso i'r plant ddod a photeli dŵr hefyd.

BOCSYS BWYD

Os nad ydych am i'ch plentyn gael cinio ysgol, gall ddod a phe cyn bwyd i'r ysgol. Mae'r plant i gyd yn bwyta o dan arolygaeth yn y neuadd. Ceisiwch sicrhau bod cynnwys y bocsy yn cydymffurfio a'n polisi Ysgol Iach h.y. dim diod siol, dim da-da, dim llawer o bethau melys.



PRESENOLDEB

Mae presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn un o brif flaenoriaethau'r ysgol. Cydnabyddir fod cydberthynas rhwng presenoldeb a pherfformiad addysgol. O ganlyniad, anogir rhieni i sicrhau presenoldeb eu plant yn yr ysgol. Targed presenoldeb a roddwyd i'r ysgol gan y Llywodraeth yw 96.6%

Mae cyfrifoldeb rhieni yn ymestyn i sicrhau fod eu plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd, yn daclus, ac mewn cyflwr i ddysgu.

Bydd drysau'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn cael eu cau am 9:00. Disgwylir i ddisgyblion sydd yn hwyr cael mynediad drwy'r brif fynedfa.

YSTADEGAU PRESENOLDEB 2020-21 (hyd at 09 Gorffennaf 2021)

Presenoldeb	96.4%
Absenoldebau Awdurdodedig	3.5%
Absenoldebau Anawdurdodedig	0.1%

ABSENOLDEB

Disgwylir i rieni egluro unrhyw absenoldeb, naill a'i ar lafar i'r athro dosbarth, dros ffon (01286 673880), drwy lythyr neu e bost i swyddfa'r ysgol ar GillianJones@gwynedd.llyw.cymru

Er mwyn sicrhau diogelwch plant gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb cyn 9:30. Pan mae presenoldeb afreolaidd disgybl yn achosi pryder gofynnir am gymorth Swyddogion Llês Addysg.

GWYLIAU YN YSTOD TYMOR YSGOL

Rydym yn gobeithio gall rieni drefnu gwyliau teuluol yn ystod gwyliau ysgol. Fodd bynnag rhydd Corff Llywodraethol Ysgol Bontnewydd ganiatâd i rieni dynnu eu plant o'r ysgol i fynd ar wyliau hyd at gyfnod o 10 diwrnod mewn blwyddyn yn unol ag arweiniad y Llywodraeth. **Cyn** trefnu gwyliau yn ystod wythnos ysgol dylai rhieni gael caniatâd y Pennaeth. Gall y polisi hwn newid ar fyr rybudd i gyd-fynd a rheolau statudol y Llywodraeth. Gofynnir i rieni blwyddyn 2-6 sicrhau presenoldeb eu plant yn ystod cyfnod y Profion Cenedlaethol (mis Mai). **Ni chaniateir** absenoldeb oherwydd gwyliau yn ystod cyfnod y Profion Cenedlaethol.

CYFLE CYFARTAL, CYNHWYSIAD A CHYDRADDOLDEB

Nod yr ysgol yw:

- Sicrhau'r un cyfleoedd i'r holl ddisgyblion o ba bynnag gefndir cymdeithasol y dônt, cyfleoedd cyfartal i fechgyn a merched, i blant galluog iawn a phlant llai galluog.
- Meithrin agweddau cadarnhaol mewn perthynas â hil a chrefydd a rhyw.
- Osgoi cyflyru ac ystrydebu, yn enwedig mewn perthynas â'r cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol ystod o bolisiau sy'n ymwneud â hyrwyddo cynhwysiad gwahanol ddisgyblion. Croeso i weld copi o unrhyw un o'r polisiau hyn drwy gysylltu â'r Pennaeth. Mae'r Polisi Hygyrchedd yn cyfeirio at y trefniadau i hwyluso mynediad i ddisgyblion ag anabledd. Gwneir pob ymdrech i sicrhau nad ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Sicrheir cefnogaeth fugeiliol ac academaidd gydradd i ddisgyblion ag anableddau o fewn fframwaith arferol yr ysgol.

Mae mynedfeydd priodol i dderbyn disgyblion, rhieni neu ymwelwyr ag anableddau drwy fynedfeydd yr ysgol. Mae toiled addas i'r anabl o fewn yr adeilad. Mae mannau parcio dynodedig ar gyfer yr anabl yn y maes parcio. Mae Uned Therapi ar safle'r ysgol ar gyfer diwallu anghenion disgyblion ag anableddau corfforol o fewn prif ffrwd yr ysgol.

Yn yr un modd, sicrheir yr un cyfleoedd i ddisgyblion sydd mewn gofal. Bydd Cynllun Plentyn mewn Gofal yn cael ei lunio o fewn 20 diwrnod i dderbyn y plentyn yn yr ysgol ac yn cael ei adolygu bob chew mis. Y Cydlynnydd ADY, Mr Llŷr Rees yw'r aelod o staff sy'n gyfrifol am blant mewn gofal.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Nodir mewn canllawiau cenedlaethol bod un disgybl ym mhob pump a chanddo Anghenion Addysgol Arbennig yn ystod ei yrfa yn y gyfundrefn addysg. Yn y cyd-destun yma mae'r ysgol yn arddel Polisi Anghenion Arbennig sydd yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol a Chanllawiau Gweithredu Awdurdod Addysg Gwynedd. Y Pennaeth sydd a'r cyfrifoldeb terfynol dros y polisi a Mr Llŷr Rees yw Cydlynnydd Addysg Ychwanegol yr ysgol.

Rhoddir plant y mae ganddynt anghenion arbennig ar Gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol. Yn ôl dwyster eu hangen fe roddir disgyblion ar ystod o gamau. Bydd y ddarpariaeth wahanol a wneir ar eu cyfer yn amrywio o gymorth yn y dosbarth, cymorth unigol neu grŵp bach tu allan i'r dosbarth, cyngor gan y Seicolegydd Addysg, cymorth arbenigol a ddarperir gan yr Awdurdod Addysg yn yr ysgol neu leoliad mewn uned oddi ar safle'r ysol. Bydd pob darpariaeth a wneir yn cael ei drafod a'i gytuno gyda rhieni cyn ei weithredu.

Ein nod fel ysgol fydd cynnig arweiniad a ddarpariaeth a fydd yn gweddu i anghenion eich plentyn trwy gydol ei yrfa yn yr ysgol. Os bydd unrhyw bryderon gennych ynglŷn â datblygiad eich plentyn neu weinyddiad y Polisi Anghenion Arbennig fe'ch anogir i gysylltu yn gyntaf ag athro / athrawes eich plentyn, Y Cydlynnydd Anghenion Arbennig neu gyda'r Pennaeth.

Croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth i weld copi o'r Polisi ADY.

AMDDIFFYN PLANT

Mae'r ysgol hon yn gweithredu gofynion statudol mewn perthynas ag Amddiffyn Plant. Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yw Llŷr Rees. LlyrRees@gwynedd.llyw.cymru
Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant yw Ceri Ann Evans. Bydd yr ysgol yn cyfeirio achosion at Wasanaethau Cymdeithasol/Heddlu lle'n briodol, ac yn unol â'r polisi Amddiffyn Plant.

CYNNAL YMDDYGIAD DA A DISGYBLAETH

Disgwylir i'r plant ymddwyn yn barchus a chwrtais bob amser. Mae gan yr ysgol Bolisi ar Hyrwyddo Ymddygiad Da a Disgyblaeth sydd ar gael yn yr ysgol i unrhyw un ei weld.

Mae disgwyl i bob disgybl gyfrannu at greu cymdeithas wâr yn yr ysgol drwy:

- Bod yn feddylgar, yn garedig ac yn foneddigaidd yn ei berthynas â disgyblion eraill, holl staff yr ysgol ac unrhyw ymwelwyr.
- Peidio â gwneud difrod bwriadol nac ymyrryd ag eiddo pobl eraill; peidio defnyddio iaith anwedus na bod yn anghwrtais ac ateb yn ôl.
- Gwneud pob ymdrech i gadw'r ysgol a'i hamgylchedd yn daclus gan roi pob ysbwriel yn y biniau.
- Peidio â dod â phethau personol i'r ysgol e.e., teganau oni ofynnir amdanynt gan yr athro/athrawes dosbarth

Mae'r drefn disgyblu yn seiliedig ar bolisi o ganmol a chlodfori'r ymddygiad a ddymunir. Mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ymddygiad ei ddosbarth ei hun, ond os oes angen, gellir cyfeirio disgybl i sylw'r Dirprwy neu'r Pennaeth. Mewn rhai achosion o gamymddwyn, cedwir y plentyn i mewn fel cosb dros amser chwarae. Os bydd sefyllfa yn codi ble bydd plentyn yn camymddwyn yn rheoliad neu'n ddifrifol, gofynnir i'r rhieni i ddod i mewn i'r ysgol i drafod y mater gyda'r Pennaeth. Mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion cynnal ymddygiad da Webster Stratton.

Mae'r ysgol yn ceisio dysgu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng ffraeo dydd i ddydd rhwng ffrindiau a chyfoedion, â bwlio. Mae bwlio yn weithred fwriadol a bygythiol sy'n gamddefnydd o bŵer.

Ni ddioddefir unrhyw fath o fwlio yn yr ysgol. Mae canllawiau wedi'u nodi yn y Polisi Disgyblaeth ac os bydd bwlio'n digwydd yna delir â'r mater yn unol â'r canllawiau hynny.

Mae gan yr ysgol Bolisi Grym Rhesymol sydd i'w weithredu gan staff dan amgylchiadau arbennig er cynnal lefel dderbyniol o ddiogelwch.

DIOGELWCH

Mae system ddiogelwch yn bodoli yn yr ysgol hon. Ni fydd modd cael mynediad i'r ysgol drwy fynedfa'r Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 2 wedi naw o'r gloch. Gofynnir i rieni ganu cloch y brif fynedfa, os ydych am fynediad i'r ysgol.

Cymerir pob cam rhesymol ac ymarferol i sicrhau diogelwch a lles yr holl bersonau sy'n defnyddio adeiladau a thiroedd yr ysgol. Gweithredir yn unol â pholisi iechyd a diogelwch ac adolygir y gweithdrefnau yn rheolaidd. Rhaid i bob ymwelydd / gweithiwr lofnodi mewn wrth gael mynediad i'r ysgol gan dynnu sylw ei hun at reolau tan a rheolau diogelwch yr ysgol

Pe byddai rhaid cau'r ysgol mewn argyfwng byddai'r staff yn gwneud eu gorau i gysylltu â chi yn uniongyrchol. Mae'n hollbwysig felly eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol pe bai eich manylion cyswllt megis rhif ffôn yn newid.

Mewn argyfwng megis tân, y man ymgynnull argyfwng yw'r Ganolfan Bentref.

Pe bai raid cau'r ysgol oherwydd tywydd garw gofynnir i chi gadw golwg ar wefan yr ysgol neu wefan Cyngor Gwynedd neu trwy wrando ar bigion newyddion Radio Cymru neu Heart. Byddwn hefyd yn gyrru neges atoch ar system ParentMail yr ysgol.

PARCIO

Cydnabyddir fod prinder llefydd parcio tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, ni chaniateir i unrhyw riant barcio ym maes parcio'r ysgol. Mae'r llefydd parcio yma ar gyfer staff a rhieni sydd yn ddeiliaid bathodyn glas yn unig. Gofynnir yn garedig i bobl ddefnyddio'r bae parcio tu allan i giatau'r ysgol fel man golwg a chodi yn unig. Ni ddylid parcio yno. Gofynnwn yn garedig i bobl ystyried cymdogion yr ysgol wrth barcio.

GORUCHWYLIO

Ein nod yw sicrhau diogelwch y plant a chadw safon dderbyniol o drefn a rheolaeth.

Mae'r ysgol yn gweithredu trefniadau goruchwyllo plant gan yr athrawon a'r gweinyddesau yn ystod y cyfnodau isod:

- Cyn dechrau'r ysgol (8.50 – 9.00)
- Egwyl y bore /amser cinio/ Egwyl y prynhawn

- Diwedd y prynhawn (3:00 neu 3:20)

a) Trefniadau Tywydd Sych

Gweithredir y goruchwyllo drwy system rota dyddiol. Bydd y staff ar ddyletswydd yn goruchwyllo'r buarth drwy gydol y cyfnod. Gwneir trefniadau i gyflenwi pan fo aelod o staff yn absennol.

b) Trefniadau Tywydd Garw

Ar gyfnodau o dywydd garw, yr athrawon dosbarth fydd yn gyfrifol am ddarparu gweithgaredd i'r plant a'r staff ar ddyletswydd i'w goruchwyllo yn ystod yr egwyl.

c) Trefniadau Amser Cinio

Goruchwylir plant gan dair oruchwylwraig. Ar ôl i'r plant orffen bwyta, mae'r goruchwylwyr yn mynd allan gyda'r plant ac yn eu goruchwyllo ar y buarth hyd amser dod i mewn. Byddent yn cael eu cefnogi gan gymorthyddion y Cyfnod Sylfaen a chymorthyddion ADY. Yn ystod tywydd garw, byddant yn goruchwyllo'r plant yn eu dosbarthiadau.

CYSWLLT CARTREF / YSGOL

Anogir rhieni i gymryd diddordeb yn addysg eu plant gan hyrwyddo cydberthynas rhwng y cartref a'r ysgol. Trefnir cyfarfodydd rhieni yn dymhorol, a gwahoddir rhieni i'r amrywiol weithgareddau a drefnir gan yr ysgol. Gall rhiant drefnu cyfarfod ag athro penodol, drwy drefniant blaenorol.

Cyflwynir y Cytundeb Cartref Ysgol yn ystod y flwyddyn gyntaf o addysg statudol plentyn. Seilir y cytundeb ar bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni er budd eu plant. Cyrchwch i wefan yr ysgol i weld copi o'r cytundeb.

GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol ac anogir chwi i ddilladu eich plant yn y canlynol:

- trowsus / sgert dywyll
- esgidiau du addas
- crys polo melyn gyda logo yr ysgol wedi ei frodio arno (os yn bosibl)
- siwmpwr, hwdi neu gardigan las gyda logo yr ysgol (os yn bosibl)
- ffrog haf las neu felyn 'gingham'

Gellir prynu'r rhain mewn drwy'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon (ebost:

ysgolbontnewyddpta@gmail.com) neu o siopau lleol.

Dymuniad yr ysgol yw i blant wisgo'r wisg ysgol swyddogol yn ddyddiol. Gwnewch yn siŵr bod enw

eich plentyn ar bob un dilledyn os gwelwch yn dda. Mae'r bocs eiddo coll wedi ei leoli yng nghyntedd Cyfnod Allweddol 2. Gofynnir i ddisgyblion â gwallt hir ei glymu, neu blethu.

TYNNU LLUNIAU

Yn achlysurol bydd lluniau yn cael eu tynnu o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r ysgol. Gall rhai o'r lluniau yma gael eu rhoi yn y papurau newydd, eu cynnwys mewn cyhoeddiadau neu ar safleoedd gwe'r ysgol, Cyngor Gwynedd neu sefydliadau eraill y byddwn yn cydweithio â nhw. Bydd gofyn i rieni arwyddo cytundeb tynnu lluniau ar fynediad i'r ysgol, fydd yn rhoi caniatâd i dynnu a defnyddio lluniau hyd ddiwedd cyfnod y plentyn yn yr ysgol. Gall rhieni dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg drwy gais ysgrifenedig i sylw'r Pennaeth

Ni chaniateir i unrhyw riant dynnu llun plant eraill na phostio lluniau/ffilm ar unrhyw wefan cymdeithasol.

ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD

Cyflwynir addysg rhyw a pherthnasoedd fel rhan o addysg bersonol, gymdeithasol a moesol y plentyn fel bod rhywioldeb yn cael ei adnabod fel priodwedd naturiol a chyffredin i bawb gan, ar yr un pryd, sylweddoli bod iddo oblygiadau personol, cymdeithasol a moesol. Mae addysg rhyw hefyd yn rhan o'r cwricwlwm Gwyddoniaeth.

Fe ymdrinnir â'r maes mewn ffordd sensitif a synhwyrol. Mae gan rieni hawl i eithrio eu plant o wersi addysg rhyw ffurfiol a gwneir pob ymdrech rhesymol i barchu'r hawl hwnnw. Am wybodaeth bellach dylid cysylltu â'r Pennaeth. Gellir gweld copi o'r Polisi yn yr ysgol.

ADDYSG GORFFOROL

Mae'r ysgol mewn partneriaeth â'r cartref, yn gyfrifol am ddatblygiad corfforol pob plentyn, yn ogystal â'i ddatblygiad addysgol a moesol. Felly, cynhelir gwersi Addysg Gorfforol yn rheolaidd i'r Cyfnod Sylfaen a CA2 yn neuadd yr ysgol, ar y buarth neu ar y cae. Bydd plant CA2 yn manteisio ar gyfnod o nofio yn ogystal yn ystod y flwyddyn. Bydd disgyblion blwyddyn 2 yn cael cyfres o sesiynau blasu nofio yn ystod tymor yr haf.

Ein nod yw datblygu cryfder, rheolaeth ac esthetrwydd y plant trwy eu cael i fod yn gorfforol

weithgar. Byddant hefyd yn cael cyfleoedd i weithio'n annibynnol a chyd-weithio ag eraill ac i lunio a rheoli gemau eu hunain.

Yn ddibynnol ar y wers, disgwylir i'r plant wisgo dillad priodol. Golyga hyn newid o'i gwisg ysgol i drowsus cwta a chrys T ar gyfer y gampfa. Mae trowsus loncian, crys T, crys chwys, treinars neu stÿds yn addas ar gyfer gwersi tu allan. Gwnewch yn siŵr fod enw eich plentyn ar bob dilledyn os gwelwch yn dda. Ni chaniateir gwisgo modrwyau, clustdlysau nag oriau mewn unrhyw wers Addysg Gorfforol.

Mae Addysg Gorfforol yn rhan bwysig o'r Cwricwlwm ac yn statudol i bob plentyn. Os oes unrhyw reswm meddygol pam na all plentyn gymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol, gofynnir yn garedig i'r rhieni hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig. Hysbysir pob disgybl ar ddechrau'r flwyddyn ar ba ddiwrnod y caiff gwersi Addysg Gorfforol.

Cefnogir cystadlaethau dalgylchol a sirol pêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, athletau a chyfeiriannu. Yn ogystal cynhelir mabolgampau ysgol yn flynyddol. Cynhelir sawl Gala Nofio yn ystod y flwyddyn.

Caiff pob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 2 gyfle yn ystod y flwyddyn addysgol i gyfres o wersi nofio, yng Nghanolfan Hamdden Arfon (yn ddibynnol ar ganllawiau a pholisiau COVID-19). Fe'ch hysbysir mewn da bryd pan fydd eich plentyn yn mynychu. Mae'r gwersi'n rhan o weithgareddau'r ysgol, ac fe ddisgwylir i bob disgybl fynychu'r gwersi. Gofynnir i'r rhieni hysbysu'r athro dosbarth drwy lythyr, os na fydd eu plentyn yn mynychu. Gofynnir yn garedig i'r rhieni gyfrannu £2 tuag at gost cludiant.

ADDYSG GREFYDDOL

Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau uniongyrchol na ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol penodol, ond gwahoddir y gweinidogion ac offeiriaid lleol i'r ysgol yn ysbeidiol i arwain addoli ar y cyd. Ceir cyfnod o addoli ar y cyd yn ddyddiol; ar lefel adran neu ysgol gyfan ar bob dydd Llun a Gwener ac yn y dosbarthiadau ar ddyddiau eraill. Y ffydd Gristnogol a gyflwynir yn bennaf yn yr addoli hwn a chaiff disgyblion gyfle i gymryd rhan yn rheolaidd.

Mae gan rieni hawl i ofyn i'r ysgol eithrio eu plant o wersi addysg grefyddol a chyfnodau o addoli ar y cyd. Dylai rhieni sy'n dymuno gwneud hynny ddod i drafod y mater gyda'r Pennaeth.

GWAITH CARTREF

Darllen

Gweithredir cynllun darllen Cartref/Ysgol o Flwyddyn 0 - Blwyddyn 6. Bwriad y cynllun yw hyrwyddo partneriaeth rhwng rhieni a'u plant a disgybl a'u hathrawon. Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad i hybu darllen yn gyffredinol er budd eich plant. A fydddech gystal â sicrhau fod eich plant yn dychwelyd y llyfrau a ddarllenwyd yn wythnosol ynghyd â'r llyfr coch cofnod darllen. Gofynnir i chi roi sylwadau yn y llyfr a'i lofnodi.

Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref yng Nghyfnod Allweddol 2 yn wythnosol. Gobeithir y byddwch fel rhieni yn cydweithredu i hybu gwaith cartref ac yn sicrhau fod eich plentyn yn dychwelyd gwaith cartref ar y diwrnod penodol. Yn dilyn ymgynghoriad gyda rhieni, mae'r ysgol yn gosod tasgau amrywiol er mwyn apelio at ddant pob plentyn.

Yn achlysurol rhoddir gwaith cartref yn y Cyfnod Sylfaen.

CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Mae'r Corff Llywodraethol, yn unol â gofynion Deddf Addysg 1988, yn derbyn na ellir codi tâl am y canlynol:

- mynediad i'r ysgol
- yr addysg a roddir yn ystod oriau'r ysgol
- defnyddiau ac offer ar gyfer gwersi yn ystod oriau ysgol
- gweithgareddau a gynhelir yn ystod oriau ysgol

Rhagwelir y trefnir rhai teithiau yn ystod oriau ysgol na fydd yn rhan hanfodol o'r gwaith cwrs, ond a fydd yn brofiad llesol i'r disgyblion. Yn ôl y Ddeddf, er nad oes gan ysgol hawl i godi tâl am deithiau o'r fath, mae ganddi hawl i:

- ofyn am gyfraniad gwirfoddol tuag at gost o drefnu'r fath daith
- ofyn i asiant allanol i drefnu'r daith

Heb gyfraniadau tebyg, mae'n bosibl na fydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal. Mae hawl gan y

Pennaeth i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os yw cyfraniadau isel yn golygu colled sylweddol i'r ysgol.

Awdurdodir y Pennaeth i ofyn am daliadau ar gyfer y canlynol:

- gwersi cerdd unigol (Taliad ar lein)
- gweithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau'r ysgol yn ôl amodau'r Ddeddf
- mewn achosion lle achosir difrod i unrhyw ran o adeiladau'r ysgol yn dilyn ymddygiad disgyblion
- pan fydd disgybl yn colli neu'n difrodi llyfr, cyfarpar neu eiddo sy'n perthyn i'r ysgol, i aelod o staff neu ddisgybl arall

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae'r ysgol yn credu'n gryf mewn meithrin a datblygu doniau creadigol ac fe hyrwyddir hyn drwy gynnal cyngherddau a chystadlu mewn Eisteddfodau. Bydd yr ysgol bob amser yn gwneud ei gorau i gefnogi gweithgareddau lleol o'r fath.

Ceir hefyd gyfleoedd i gystadlu mewn gweithgareddau addysg gorfforol, yn aml maent ar benwythnos neu gyda'r nos. Mae'r gweithgareddau hyn yn agored i'r holl ddisgyblion sydd ym marn y Pennaeth, yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan gyfrifol ynddynt.

CYNGOR YSGOL

Mae Cyngor Ysgol, Bontnewydd yn weithredol ers rhai blynyddoedd bellach ac yn dylanwadu'n bositif iawn ar fywyd pob dydd yr ysgol. Mae gan ddsbarthiadau blynyddoedd 2 i 6 Gyngor Dosbarth, ac yn ystod y flwyddyn cynhelir sawl cyfarfod ble caiff y disgyblion oll gyfle i fynegi barn am weithdrefnau'r ysgol a chynnig syniadau ar gyfer gwella.

Ar ddechrau pob blwyddyn ysgol cynhelir pleidlais gudd ble mae pob Cyngor Dosbarth yn ethol dau ddisgybl i'w cynrychioli ar y Cyngor Ysgol.

Mae'r Cynghorau Dosbarth ac Ysgol yn rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi barn a chydweithio mewn partneriaeth gyda Staff a Llywodraethwyr i wella a datblygu'r ysgol er lles pawb. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r disgyblion ddatblygu sgiliau di-ri gan gynnwys cyfathrebu, gwrando, mynegi barn, datrys problemau, gwneud penderfyniadau a myfyrio. Gan eu bod hefyd yn cael dyraniad arian, cadw cofnodion a llunio mantolen maent hefyd yn datblygu eu sgiliau rhifedd a TGCh.

CYNGOR ECO

Mae Ysgol Bontnewydd yn 'Ysgol Werdd' ac wedi bod yn rhan o'r Cynllun 'Eco-Sgolion' ers Mai 2009 a Chynllun 'Ysgolion Gwyrdd' ers Medi 2010. 'Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn cydweithio fel tîm i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a chymryd camau gweithredol er mwyn ei ddatblygu. Mae'r Cyngor Eco/Gwyrdd yn cael dylanwad positif iawn ar yr ysgol ac yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyfrifol er lles yr amgylchfyd.



CYNGOR YSGOL IACH

Mae Ysgol Bontnewydd yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Rydym yn annog disgyblion i fwyta'n iach a chadw'n heini. Etholir dau gynrychiolydd o Bl.6 fel aelodau'r Cyngor Ysgol Iach i gydweithio gyda'r Cyngor Ysgol.

CYNGOR SIARTER IAITH

Ar ddechrau pob blwyddyn ysgol, cynhelir pleidlais yn nosbarthiadau CA2 ble mae'r Cyngor Dosbarth yn ethol dau ddisgybl i'w cynrychioli ar y Cyngor Siarter Iaith. Mae Cyngor y Siarter Iaith yn gyfrifol am hybu defnydd o'r iaith Gymraeg.

Rydym wedi derbyn gwobrau Efydd, Arian ac Aur Siarter Iaith Gymraeg, Cyngor Gwynedd.

CLYBIAU AR ÔL YSGOL

Cynhelir clybiau amrywiol yn ystod y flwyddyn rhwng 3:20pm a 4:30pm. Mae'r clybiau yn agored i ddisgyblion blyneddoddedd 3 – 6. Gweler adran Newyddion y wefan am restr o ddyddiadau a gweithgareddau.

Petai'r athrawon / hyfforddwyr yn methu bod yn bresennol a bod angen gohirio'r gweithgaredd, hysbysir y plant / rhieni cyn gynted â phosibl drwy'r system ParentMail

Clwb Campau'r Ddraig

Cynhelir clwb chwaraeon yn ystod y flwyddyn. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys gemau, athletau a sesiynau ffitrwydd.





Clwb Eco

Cynhelir clwb eco yn ystod tymor y tymor - plannu, tyfu a chynaeafu. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys plannu bylbiau, hadau a phlanhigion, chwynnu a gofalu am yr amgylchedd.

YR URDD

Mae gweithgareddau'r Urdd yn flaenllaw ym mywyd yr ysgol a rhoddir cyfle yn flynyddol i aelodau gymryd rhan mewn amryw gystadlaethau boed mewn Eisteddfodau neu gystadlaethau Celf.



Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cymryd rhan yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd megis pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, nofio, gymnasteg ac athletau.

Bydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn cael cyfleoedd i fynychu cyfnodau preswyl yng ngwersylloedd yr Urdd megis Gwersyll yr Urdd Glan-llyn Gwersyll yr Urdd Llangrannog neu Canolfan yr Urdd, Caerdydd wrth ymweld â'r brifddinas.

YMWELIADAU PRESWYL

Fe fydd cyfle i ddisgyblion Bl.6 ymweld a chanolfannau awyr agored Pentrellyncymer neu Nant Bwlch yr Haearn i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored o bob math e.e.beicio mynydd, dringo, cyfeiriannu, gwifren zip i enwi ond ychydig

CYMDEITHAS RHIENI ATHRAWON

Mae cangen gref iawn o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn bodoli yn yr ysgol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o rieni gweithgar a brwdfrydig. Mae'r gymdeithas bob amser yn awyddus i groesawu aelodau newydd ac yn ddiolchgar iawn o bob cymorth a gynigir.

Cynhelir amrywiol weithgareddau i godi arian tuag at goffrau'r ysgol yn ystod y flwyddyn ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl gefnogaeth mae'r ysgol yn ei dderbyn gan y gymdeithas hon.

Cynhelir cyfarfod blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol i godi aelodau newydd ar y pwyllgor, ac i ddechrau trefnu gweithgareddau am y flwyddyn ddilynol. Fel rheol cynhelir tua dau weithgaredd bob tymor ysgol.

GWIRFODDOLI

Rydym yn croesawu rhieni a pherthnasau i wirfoddoli mewn tasgau amrywiol. Cysylltwch os ydych ar gael i fod yn gefnogwr darllen neu i gynorthwyo yn y Clybiau.

Yn ychwanegol, gellid cofnodi eich enw i fod yn rhan o'r criw 'Dwylo Prysur' sy'n cynorthwyo gyda pheintio, gwaith garddio a man dasgau eraill.

Y DREFN GWYNO

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi ynglŷn â'r drefn i'w dilyn pan dderbynnir cwynion yn gysylltiedig â'r ysgol. Ym mhob achos dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf, neu gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr os yw'r gŵyn am y Pennaeth.

Pwysleisir, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol. Os nad ydych yn fodlon yn dilyn trafodaeth â'r Pennaeth a chyfnod rhesymol i ddelio a'r anghydfod, yna cynghorir chwi i gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethol.

DEDDF DIOGELU DATA

Yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data, hysbysir bod yr ysgol yn casglu, defnyddio, rhannu a chadw data i gyd-fynd a Rheoliadau Addysg. Er mwyn gweld yr hysbysiad yn llawn cyrchwch i'n gwefan www.ysgolbontnewydd.org

GWYBODAETH BELLACH

Am wybodaeth bellach gallwch gyrchu i wefan yr ysgol ar <http://www.ysgolbontnewydd.org> neu drwy gysylltu â'r Pennaeth.

SYLWADAU RHIENI

Gobeithio fod y wybodaeth o fewn y llawlyfr wedi bod o gymorth i chi.

Byddem yn falch o glywed os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y cynnwys.

Diolch yn fawr
Llŷr Rees (Pennaeth)